

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Hydref 22: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Hydref 17: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch. Gwasanaethir

Eglwys Annibynnol Bethlehem,

Talybont

Nos Fercher, Hydref 25
am

7 y.h.

Raffi **Noson Goffi**
Logan
Tombola

Stondinau amrywiol

Pris mynediad £1 wrth y drws

Yr elw i gyd i helpu

Logan Sellers 16. Cae Gwigin
Derbynnir rhoddion yn ddiolchgar

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 15

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Hydref 22

5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

Hydref 29

5.00 p.m. - Mr Thomas A Williams

Diolchgarwch fydd gennym y tro hwn.

Dydd Sul, Hydref 22: Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch yn yr Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

CARMEL

Nos Wener, Hydref 20: Dwylo Prysor am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Hydref 22: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Hydref 19: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch yn y festri.

Dydd Sul, Hydref 22: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch; ac am 2.00 o'r gloch bydd Gwasanaeth Diolchgarwch yng nghwmni plant ac aelodau'r Ysgol Sul a'r Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Hydref 22: Ni fydd oedfa.

CYNLLUN EFE

Nos Lun, Hydref 23: Am 7.00 o'r gloch yn Capel Coch bydd Cyfarfod Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr newydd Cynllun Efe.



Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 15

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Parchg Euros Wyn Jones

Hydref 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Hydref 29

10.00 a.m. - Mr Andrew Settaree

5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

Croesi pont

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 744: 15 Hydref, 2017



Pawb â'i fys lle bo'i ddolur. A gwir y gair. Pan agorwyd y *Queensferry Crossing* ddiwedd Awst, ychydig iawn o sylw a roddais i'r bont newydd honno dros aber Afon Forth yn yr Alban. Mi ddarllenais amdani ar y pryd. Ond mae'n rhaid i mi gyfaddef na fedraf erbyn hyn gofio a oes angen talu toll ai peidio i yrru drosti. Y rheswm syml am hynny mae'n debyg yw nad wyf yn rhagweld y byddaf yn croesi'r bont hon yn aml. Wedi'r cwbl, fum i erioed dros yr hen bont, er bod honno bron cyn hyned â mi.

Gwahanol yw hi efo'r *Mersey Gateway* a agorwyd yn oriau mân bore ddoe. Rwy'n gwybod ers wythnosau y bydd angen talu toll i groesi'r bont newydd hon dros Afon Merwy. Mae'n fwy hwylus i ni fynd i Lerpwl dros Bont Runcorn y dyddiau hyn. Ac felly, mae'r ffaith y bydd rhaid talu i groesi'r bont newydd o ddiddordeb i mi. Gwaeth na hynny, gydag agor y bont newydd ddoe, fe gaewyd yr hen bont, a bydd rhaid talu i groesi honno hefyd pan gaiff ei hailagor ymhen rhai misoedd. Yn naturiol, mae miloedd o bobl, er yn croesawu'r ffaith y bydd y bont newydd yn hwyluso'r llif traffig, yn gofidio am y tollau; ac nid yw'r addewid y caiff y tollau eu dileu ymhen 30 o flynyddoedd fawr o gysur.

Gan fod pontydd mor bwysig ac mor ddefnyddiol, nid yw'n syndod o gwbl fod cynllunwyr pontydd wedi cael clod ac enwogrwydd. Yma yng Nghymru, pwy na chlywodd am Thomas Telford

a Phont y Borth a Phont Conwy; Robert Stephenson a Phont Britannia a'r bont rheiffordd dros Afon Conwy; Inigo Jones a Phont Llanrwst; a William Edwards a Phont Pontypridd? Mae'r pontydd a luniwyd gan y dynion hyn yn gampweithiau hardd.

Gan fod William Edwards yn weinidog yr Efengyl yn ogystal â saer maen a chynlluniwr pontydd, mae'n debyg y gallai ef werthfawrogi'r darlun o Iesu Grist fel pont rhwng pobl a Duw. Iesu yw'r un sydd wedi pontio'r bwlech mawr sydd rhyngom a Duw am nad ydym wedi caru Duw â'n holl galon na rhoi ufudd-dod llawn iddo. Campwaith cariad a thrugaredd Duw yw iddo wneud ei Fab yn bont i'n galluogi i fynd dros y cyfan sy'n ein rhwystro rhag dod i berthynas heddychol ag Ef. Heb y bont hon, heb Grist, byddai'r bwlech hwn yn parhau'n amhosibl i'w groesi. A rhan hanfodol o gynllun Duw yw'r ffaith nad oes dim i'w dalu am gael croesi. Nid oes toll o fath yn y byd ar y bont hon. Nid oes rhaid i ni gyflawni dim; nid oes rhaid i ni brofi teilyngdod; nid oes rhaid cyflwyno defodau crefyddol na gweithredodd da er mwyn cael croesi. Mae'r bont yno, i ni ei chroesi am ddim trwy ymddiried yn Iesu Grist.

Gyda llaw, nid oes toll ar bont newydd y Forth, nac unrhyw bont arall yn yr Alban o ran hynny. Ac os byth y ceir y drydedd bont dros y Fenai, tybed a fydd angen talu toll i'w chroesi hi (a'r ddwy bont bresennol yn ei sgil)?

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Gwaeddais yn uchel ar Dduw, yn uchel ar Dduw, a chlywodd fi. Yn nydd fy nghyfyngder ceisiais yr Arglwydd, ac yn y nos estyn fy nwylo'n ddiplino; nid oedd cysuro ar fy enaid ... Yna dywedais, "Hyn yw fy ngofid: A yw deheulaw'r Goruchaf wedi pallu?" "Galwaf i gof weithredoedd yr Arglwydd, a chofio am dy ryfeddodau gynt. Meddyliaf am dy holl waith, a myfyriaf am dy weithredoedd. O Dduw, sanctaidd yw dy ffordd; pa dduw sydd fawr fel ein Duw ni? Ti yw'r Duw sy'n gwneud pethau rhyfeddol; dangosaist dy rym ymhlith y bobloedd. Â'th fraich gwaredaist dy bobl, disgynyddion Jacob a Joseff" (Salm 77:1-2, 10-15).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes, Llanelltyd ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys Parry, Llandudno.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

GWASANAETH COMISIYNU

Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuentid a Theuluoedd Cynllun Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Hydref 23.

Bydd yr oedfa yn gyfle i ni ddod at ein gilydd i gyflwyno Catrin a'r gwaith i ofal Duw.

Cawn gwmni aelodau capel Caersalem, Caernarfon a chynrychiolwyr Scripture Union Cymru sy'n cydweithio â ni i gynnal y swydd hon.

Croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Capel Ebeneser

Yn dilyn cyngor a gafwyd oddi wrth y cyfreithwyr a syrfewyr penderfynodd aelodau Ebeneser, Deiniolen, mewn Cyfarfod Eglwys a gynhaliwyd ddechrau Mai, y byddai'r capel yn cael ei werthu trwy ocsiwn. Ddydd Iau, Hydref 5, mewn ocsiwn a gynhaliwyd ym Mangor fe werthwyd y capel, a disgwyliwn i'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf, erbyn diwedd y flwyddyn fan bellaf, wedi i'r holl waith cyfreithiol ac ariannol arferol gael ei wneud. Cafodd Ysgrifennydd yr eglwys a'r Gweinidog gyfle i gyfarfod y darpar brynwr y diwrnod o'r blaen. Byddwn yn anfon llythyr at holl aelodau'r eglwys i'w hysbysu am y gwerthiant. Y capel yn unig sydd wedi ei werthu, wrth gwrs; a bydd eglwysi Ebeneser a Cefnywaun yn parhau i gynnal eu hoedfaon yn y festri fel arfer.

Noson Goffi

Bydd eglwys Bethlehem Talybont yn cynnal Noson Goffi nos Fercher, Hydref 25 i godi arian at y gronfa a drefnwyd i estyn cymorth i Logan Sellers a'i deulu, wrth i Logan wynebu triniaeth ysbty. Mae'r manylion ar gefn y rhifyn hwn. Dymunwn y gorau i Logan wrth gwrs.

Dymuniadau Gorau

Wrth groesawu Euron Hughes i Capel Coch heddiw, dymunwn yn dda iawn iddo ar gyfer ei ordeinio'n weinidog i Iesu Grist ddydd Sadwrn, Tachwedd 4. Bydd Euron yn gwasanaethu eglwysi Annibynnol yng nghylch Dolgellau ac yn cyfuno'r gwaith hwnnw gyda'i waith dysgu yng Ngholeg Meirion Dwyfor.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener. Diolch yn fawr i Catrin, Gwenno a Dafydd am ei arwain.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch yn y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Hydref 17.

Bwrlwm

Cynhelir Bwrlwm yn festri Bethlehem, Talybont am 2.15 o'r gloch ddydd Iau, Hydref 19. Croeso cynnes i chi alw draw am baned a sgwrs.

Agor y Llyfr

Cafodd tîm 'Agor y Llyfr' groeso yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen ddydd Gwener. Cyflwynwyd stori 'Solomon, y Brenin Doeth' y tro hwn. Roedd yn braf cael cwmni Catrin Hampton am y tro cyntaf wrth i ni ail ddechrau ymweld â'r Ysgol.

Cwrs Ieuentid

Blynyddoedd Ysgol 7-11
Yng Ngholeg y Bala
Nos Wener - Dydd Sul
Tachwedd 3-5, 2017

Holwch y Gweinidog am fanylion am y Cwrs Ieuentid nesaf hwn a gynhelir yng Ngholeg y Bala yn ystod gwyliau hanner tymor yr Ysgol y mis nesaf os ydych am i rywun gael cyfle i fynd yno.

Bocsys Nadolig

Bydd cyfle eleni eto i anfon anrhegion mewn bocs esgidiau i blant anghenus mewn gwledydd tramor trwy'r elusen Teams 4 U. Fel yr eglurwyd y llynedd, yr un bobl a sefydlodd yr elusen hon ag a sefydlodd Ymgyrch Plentyn y Nadolig (Operation Christmas Child).

Bydd angen i'r bocsys esgidiau fod yn barod erbyn nos Sul, Tachwedd 19. Ceir rhagor o fanylion am yr ymgyrch yr wythnos nesaf.